

YMARFER 4: Sylwadau

Most of us are losing out by having the wrong mortgage, the wrong gas supplier and the wrong savings accounts.¹

Most of us know this and digest the daily tips on how to go about switching to a better deal.² So why haven't we done it?

Because the truth is that it isn't easy. Changing your gas supplier may sound straightforward but we all know it isn't.³

I've had trying problems with my mobile-phone company.⁴ After eight weeks with a broken phone, endless calls to the customer service line, two visits to an Orange shop, one temper tantrum, one bout of tears, and the delivery of a new phone⁵ with a battery pack that didn't fit, I have given up and reclaimed an old phone that sort of works from the baby's toy box⁶.

The fact is that, almost without exception, customer service staff are useless at providing any kind of customer service. Everyone I have ever spoken to at Welsh Water, and at British Gas has been utterly charming – but not one of these has been able to actually sort out any of my problems.⁷

Whether this is a matter of widespread personal incompetence or of hopelessly bad systems⁸ at the service providers I'm not sure – although the latter is more likely.

The result is the same: I am loath to call a customer service line for fear of getting caught up in another round of phone calls and administration.⁹

[The Sunday Times]

1. **Cywair/ Ysytr** **Most of us are losing out by having the wrong mortgage, the wrong gas supplier and the wrong savings accounts.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae'r mwyafrif ohonom yn ein colled drwy gael y morgais anghywir, cyflenwr nwy anghywir a'r cyfrif cynilo anghywir.*
2. *...y cyflenwr nwy anghywir a'r cyfrifon arbedion anghywir*
3. *Mae'r rhanfwyaf (sic) ohonon ni ar ein colled achos mae gyda ni'r morgais anghywir...*
4. *Mae'r mwyafrif ohonom yn colli allan yn ariannol trwy gael y morgais anghywir...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae'r mwyafrif ohonom ni ar ein colled oherwydd bod gennym y morgais, y cyflenwad nwy a'r cyfrifon cynilo anghywir.*

SYLW:

Mae'r cyfieithwyr yn dilyn y Saesneg yn slafaidd yn y brawddegau aflwyddiannus uchod. Maent wedi dilyn ymadroddion Sasneg fel 'losing out' drwy ddweud *colli allan* a chyfieithu'r Saesneg 'having' â'r ferf Gymraeg *cael*.

Tybed a oedd yr ymgeisydd yn meddwl mai un gair yw 'rhan fwyaf'? Nid unwaith y mae'n digwydd ar y ffurf *rhanfwyaf* yn y darn.

Mae enghraifft Afl.1 yn cam gyfleu ystyr y gwreiddiol drwy ddweud *cyfrif cynilo* yn lle *cyfrifon cynilo*.

Mae angen adnabod y gwahaniaeth rhwng gwahanol ystyron 'save' a defnyddio'r un cywir yn ei gyd-destun: 'Achub bywyd', 'arbed amser', 'cynilo arian', 'cadw ffeil gyfrifiadu'r'. Nid yw *cyfrifon arbedion* yn taro'r hoelen ar ei phen.

Sylwch ar ffurf yr idiom 'bod ar ein colled' nid *yn ein colled* fel sydd yn Afl.1.

Sylwch hefyd fod yr enghraifft llwyddiannus, fel y dylid, yn cynnwys y fannod o flaen pob enw yn yr olyniad o enwau pendant – *y morgais, y cyflenwad nwy a'r cyfrifon cynilo anghywir*. Gwelir rhagor am hyn yn *Gramadeg Cymraeg* (David Thorne), tud. 111.

2. Cywair/ Cywirdeb

Most of us know this and digest the daily tips on how to go about switching to a better deal.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae'r mwyafrif ohonom yn ymwybodol o hyn ac yn treulio'r tips beunyddiol ar sut.*
2. *Mae'r rhanfwyaf (sic) ohonom ni yn gwybod hyn ac yn llyncu'r awgrymiadau beunyddiol ar sut y dylen ni fynd ati i gael well fargen.*
3. *Mae'r rhan fwyaf ohonom yn gwybod hyn ac yn amgyffred y cyngor dyddiol...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae'r rhan fwyaf ohonom yn gwybod hyn ac yn ystyried yr awgrymiadau dyddiol ar sut i gael gwell bargaen.*

SYLW:

1. Gwelir dilyn y Saesneg yn slafaidd yn Afl.1 ac yn Afl.2: nid yw *treulio* na *llyncu* yn taro yma er eu bod ym maes 'bwyd/bwyta'! Cofier bod i'r gair Saesneg ystyr ehangach. Byddai *ystyried* yn y taro yn y cyd-destun sydd yma?
2. Mae gwallau treiglo amlwg yn Afl.2: *i gael well fargen*.

3. Cystrawen

...but we all know it isn't.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...mae pawb yn gwybod ei fod o ddim.*
2. *...gŵyr pawb ohonom mai nid felly y mae.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...rydan ni i gyd yn gwybod nad ydy hyn yn wir...*
2. *...ond mae pob un ohonom yn gwybod nad ydyw.*

SYLW:

1. Nodwch mai ffurf negyddol cymal 'mai' yw 'nad' ac nid *mai nid*. Gallech gael *mai nid* mewn deialog efallai ond dylech ei osgoi mewn ysgrifennu ffurfiol. Gweler *Y Golygiadur* (Rhiannon Ifans), tud. 409.
2. Sylwch hefyd mai mewn brawddegau negyddol y defnyddir 'dim' ac felly mae'r *ei fod o ddim* yn Afl.1 yn anghywir. Cewch ragor o fanylion am hyn yn *Gramadeg y Gymraeg* (Peter Wynn Thomas) tt. 283 a 544.

4. Cystrawen I've had trying problems with my mobile-phone company.

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. *...cwmni fy ffôn symudol*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...fy nghwmni ffôn symudol*
2. *...y cwmni ffôn symudol*

SYLW:

Ystyrier y brawddegau:

'Rwyf yn mwynhau cwmni fy ffôn symudol bob prynhawn.'

'Rwyf yn derbyn gwasanaeth gwych gan y cwmni ffôn symudol hwn.'

'Rwyf yn derbyn gwasanaeth gwych gan y cwmni ffôn symudol gorau yn y byd.'

Daw'r dewis llwyddiannus yn amlwg ond inni roi'r olyniad dan sylw yng nghyd-destun 'y... hwn' neu 'y... gorau'.

5. Cystrawen and the delivery of a new phone

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...a'r derbyniad o ffôn newydd.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...a derbyn ffôn newydd.*

SYLW:

Mae angen gofal wrth ymdrin â chystrawen y genidol. Mae'r iaith Saesneg yn fwy tueddol o ddefnyddio enwau haniaethol nag yw'r Gymraeg. Lle bo hynny'n bosibl, dylid defnyddio berfenw i gyfleu'r enw haniaethol. Sylwch hefyd nad yw'r Gymraeg yn trosi'r 'of'

Saesneg. Gellwch ddarllen rhagor am hyn yn *Gramadeg y Gymraeg* (Peter Wynn Thomas), tt. 320–4.

6. **Ystyr/
Cywirdeb** **I have given up and reclaimed an old phone that sort of works from the baby's toy box.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *roeddwn wedi cael llond bol ac wedi cael gafael ar hen ffôn oedd y math a fyddai'n gweithio mewn bocs teganau plentyn yn unig!*
2. *...bu'n rhaid imi fynd yn ôl i ddefnyddio hen ffôn oedd yn hanner gweithio o focs teganau'r babi.*
3. *...ac wedi adfer fy hen ffôn o flwch teganau'r babi sy'n gweithio mewn rhyw fodd.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...ac wedi cael hen ffôn yn ôl, sydd fwy neu lai'n gweithio, o focs teganau'r babi.*
2. *...dwi wedi rhoi'r gorau iddi ac wedi achub hen ffôn, sydd yn gweithio i raddau, o flwch teganau'r babi.*

SYLW:

1. Mae Afl.1 yn camddehongli'r Saesneg gwreiddiol.
2. Oherwydd nad oes atalnodi ystyrion yn y brawddegau aflwyddiannus, mae amwysedd yn codi, a chawn ddarlun digon doniol o'r ffôn yn canu yn y bocs teganau! Sylwch fod y ddau gyfieithydd llwyddiannus wedi cynnwys 2 goma i wneud yr ystyr yn glir.

7. **Cystrawen/
Cywirdeb** **Everyone I have ever spoken to at Welsh Water, and at British Gas has been utterly charming – but not one of these has been able to actually sort out any of my problems.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *– ond nid oes yr un ohonynt wedi llwyddo i ddatrys unrhyw un o'm problemau.*
2. *– ond nid ydw neb ohomynt wedi medru sortio fy mheblemau.*
3. *– ond does yr un ohonynt nhw wedi gallu fy helpu gydag unrhyw un o'm problemau.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *– ond ni lwyddodd yr un ohonynt i ddatrys yr un o'm problemau*

SYLW:

1. Mae Afl.2 yn enghraifft amlwg iawn o fethu â golygu'r testun.
2. Mae'r enghraifft llwyddiannus wedi llwyddo i osgoi gorfod dewis rhwng *oes* ac *yw* gydag *yr un*. Ar yr olwg gyntaf, gellid disgwyl 'nid yw' am fod 'yr un' yn ymddangos yn oddrych pendant gan fod y fannod yn rhan ohono, ac mai gyda goddrych amhendiant y defnyddir 'oes'. Ond, yn ôl *Gramadeg y Gymraeg*, Peter Wynn

Thomas', tud. 276, disgwylir 'oes' gydag 'yr un'. Yn ôl *Gramadeg Cymraeg*, (David Thorne), tud. 261, mae 'nid oes' a 'nid yw' yn dderbyniol o flaen 'yr un'.

8. Cystrawen Whether this is a matter of widespread incompetence or of hopelessly bad systems...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Pwy a wŷr os mai anallu yn gyffredinol yw hyn...*
2. *Nid wyf yn siŵr os mai'r rheswm am hyn yw...*
3. *Os yw hyn yn fater o anallu personol cyffredinol neu systemau anobeithiol wael gan y darparwyr gwasanaeth nid wy'n siŵr.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Dwi ddim yn siŵr p'un ai mater o anallu personol eang neu fater o systemau sy'n anobeithiol wael ar ran y darparwyr gwasanaeth yw hyn...*

SYLW:

Mae Afl.1, Afl.2 ac Afl.3 i gyd wedi cyfieithu 'whether' ag **os**. Edrychwch ar *Y Golygiadur*, (Rhiannon Ifans) tt. 182 a 352. Nid 'whether' yw ystyr 'os' ac nid yw'r ffaith eu bod yn defnyddio 'if' yn llac yn lle 'whether' yn y Saesneg yn golygu y dylid gwneud hynny yn y Gymraeg. Nid yw'n dderbyniol cyflwyno cymal gofynnol anuniongyrchol â'r gair 'os'. *A/ai* sy'n gywir yma, er enghraifft, 'Gofynnodd a fydd Mair yn dod' nid 'Gofynnodd os bydd Mair yn dod.'

Mae Afl.3 yn mynd gam ymhellach wedyn ac yn ymdebygu i gymal amodol.

9. Ystyr The result is the same: I am loath to call a customer service line...

SYLW:

Ni chyfieithwyd y frawddeg hon o gwbl gan un o'r ymgeiswyr. Enghraifft bellach o ddiffyg gofal wrth olygu'r gwaith.

*** Cywirdeb Cafwyd llawer o wallau sillafu a gwallau teipio:**

- gwyr – gŵyr
- eriaed – erioed
- nwedi - wedi
- wedi' – wedi

SYLW:

Gan mai gwallau teipio yw'r mwyafrif o'r rhain, mae'n debygol y byddai golygu gofalus cyn cyflwyno'r gwaith wedi eu gweld a'u cywiro.

Cafwyd hefyd lawer o wallau treiglo. Trafodwyd rhai ohonynt wrth

ymdrin â Chystrawen uchod ond gellid ychwanegu:

- er fod – er bod
- o'm mhroblemau – o'm problemau
- gyda cwmni – gyda chwmni
- fy nhal – fy nal